Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd-Cymru • Y Deml Heddwch • Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3AP
www.cewc-cymru.org.uk • *Ffôn* 029 2022 8549 • *Ffacs* 029 2064 0333 • *E-bost* cewc@wcia.org.uk

DINASYDDION SY'N MEDDWL: SUT I WNEUD ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL YN ATHRONYDDOL

Adnodd CEWC-Cymru ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2

Cynnwys

Adran 1: Deunydd Rhagarweiniol

(i) Plant fel athronwyr
(ii) Ynglŷn â'r modwl hwn
(iii) Gweithgareddau cynhesu a thawelu
(iv) Camau ymholiad
(v) Gwefannau defnyddiol

Adran 2: Taflenni gweithgaredd yn ymwneud â Gwerthodd ac Agweddau mewn ABCh

Dylai'r disgyblion …
1. werthfawrogi a dathlu gwahaniaeth ac amrywiaeth diwylliannol
2. dangos gofal am eraill a bod yn ystyriol ohonynt ac yn sensitif i'w teimladau
3. cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu gweithredoedd
4. bod yn chwilfrydig ac ymholgar a meddu ymdeimlad o ryfeddod at ffenomenau naturiol a chyflawniad dynol
5. bod yn onest a theg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod
6. cymryd diddordeb gweithredol ym mywyd y gymuned a phryderu am yr amgylchedd ehangach

Argymhellir yn gryf fod athrawon yn darllen yr adran Deunydd Rhagarweiniol cyn rhoi tro ar y gwersi yn Adran 2.

Cydnabyddiaeth

Datblygwyd y pecyn hwn gydag arian oddi wrth Sefydliad Esmée Fairbairn, yn dilyn gweithgareddau pilot yn Ysgol Gynradd Willowtown, Ysgol Iau Coed Cae ac Ysgol Gynradd Glyn-coed ym Mlaenau Gwent.

Rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth, a dymunwn hefyd ddiolch i'r canlynol: Roger Sutcliffe a Lizzy Lewis (y Gymdeithas er Hyrwyddo Ymholi Athronyddol mewn Addysg – SAPERE), Karin Murris (Dialogue Works), Paul Cleghorn (Ysgol Gynradd Sunnyside, Alloa), Steve Trickey a Doris Cleghorn (Cyngor Sir Swydd Clackmannan), Maria Cornish a Sara Stanley (Ysgol Gyntaf Chapel Break, Norwich), yr Athro Robert Fisher, James Nottingham (N-RAIS), Karen Stringer (Ysgol Eglwys Loegr St George, Barrow-in-Furness), Penny Henderson (Ysgol Gynradd Goodly Dale, Windermere), Neil Richmond (Ysgol Gyntaf Stobhillgate, Morpeth), ac Uned Meddwl ar gyfer Dysgu Northumberland.

Cyhoeddwyd gan CEWC-Cymru yn Haf 2005

ADRAN 1: DEUNYDD RHAGARWEINIOL

(i) Plant fel athronwyr

Ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2 y mae'r adnodd hwn. Ei fwriad yw datblygu sgiliau meddwl plentyn trwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol, neu i'r gwrthwyneb. Defnyddia ddull **Athroniaeth ar gyfer Plant** i alluogi trafodaeth am foesau a gwerthoedd mewn sefyllfa gyhoeddus yr ystafell ddosbarthi gael ei chynnal.

Egwyddor Athroniaeth ar gyfer Plant yw y dylid rhoi cyfle i blant ofyn cwestiynau athronyddol 'dwys' a'u trafod yn agored. Os byddant yn cymryd rhan yn gyson yn y cyfryw drafodaethau, bydd **cymuned ymholi**, a fydd yn ehangu eu meddwl beirniadol, eu sgiliau ieithyddol a'u hymwybyddiaeth foesol, yn datblygu. Gall Athroniaeth ar gyfer Plant yn ogystal gynorthwyo i ddatblygu awyrgylch o gydweithrediad a chynhywsedd yn yr ysgol i gyd, am ei bod yn annog y plant i ysytyried teimladau a barn ei gilydd, ac i ymateb yn briodol.

- I ddod o hyd i dystiolaeth ynglŷn â'r gwahaniaeth y gall Athroniaeth ar gyfer Plant ei gwneud gweler www.sapere.org.uk/what-is-p4c/
- I ddod o hyd i brawf academaidd y gall Athroniaeth ar gyfer Plant gynorthwyo i godi Cyniferydd Deallusrwydd disgybion gweler www.sapere.org.uk/2005/08/04/research-project/

Gall sesiwn Athroniaeth ar gyfer Plant nodweddiadol ddechrau trwy darllen chwedl neu lyfr lluniau. Ar ôl y darllen, mewn parau neu grwpiau bychain, bydd y disgyblion yn siarad am unrhyw elfennau arbennig o ddiddorol: brawddeg a wnaeth iddynt aros i feddwl efallai, neu lun oedd yn eu taro fel un anghyffredin. Yn dilyn y trafodaethau hyn, byddant yn ffurfio **cwestiynau athronyddol**. Dylai'r dosbarth anelu at symud oddi wrth y cwestiynau diriaethol am blot neu gymeriad y gellid eu gofyn yn ystod yr Awr Lythrenedd, tuag at gwestiynau mwy haniaethol, cyffredinol: yn lle gofyn, “Sut fyddech chi'n teimlo petaech chi'n hwyaden hyll?”, gallai'r disgyblion ofyn, “A oes modd bod yn hyll ac yn hapus?”

- Gweler *Camau ymholi* (tudalen 5) i gael rhagor am drefn sesiwn Athroniaeth ar gyfer Plant

Yr allwedd i lwyddiant Athroniaeth ar gyfer Plant yw mai **hwylusydd** yw'r athro, yn hytrach na ffigwr awdurdod hollwybodol. Mae'r hwylusydd yn annog y disgyblion i feddwl yn ddyfnach, i holi ei gilydd ac i fynegi eu meddyliau yn gliriach; rhaid iddo beidio â rhoi'r argraff ei fod yn 'gwybod yr atebion i gyd'. Os yw'n defnyddio stori neu gerdd 'sy'n cynnwys moeswers', mae'n bwysig i'r hwylusydd beidio â thynnu sylw at yr ‘ystyr’; mewn gwirionedd, gellir annog y plant i gwestiynu gwerth y cyfryw foesau.

Argymhellir bod athrawon yn dilyn rhywfaint o hyfforddiant yn y rôl hon cyn dechrau defnyddio Athroniaeth ar gyfer Plant yn eu dosbarthiadau. Mae hyfforddiant achrededig, cynhwysfawr ar gael gan SAPERE (y Gymdeithas er Hyrwyddo Ymholi Athronyddol mewn Addysg), gan ddechrau â chwrs deuddydd Safon 1. Gall CEWC-Cymru gynnig sesiynau byrrach na chawsant eu hachredu sy'n ystyried Athroniaeth ar gyfer Plant yng nghyd-destun ABCh ac addysg dinasyddiaeth at ei gilydd.

(ii) Ynglŷn a'r adnodd hwn

Mae Adran 2 yn cynnwys taflenni gweithgaredd sy'n seiliedig ar chwech o'r Agweddau a'r Gwerthoedd yn y Fframwaith ABCh. Ni all datblygu'r cyfryw werthoedd ddigwydd dros nos; felly ni fwriadwyd i'r taflenni hyn fod yn gynlluniau gwersi ar eu pen eu hunain ond yn hytrach yn fannau cychwyn. Er enghraifft, gall defnyddio'r lluniau UNICEF ar daflen gweithgaredd 1 arwain at y cwestiwn, "Pam mae pobl yn wahanol?". Efallai y bydd ar y dosbarth angen mwy nag un sesiwn i drafod holl oblygiadau'r cwestiwn hwn, neu efallai y byddwch yn dymuno defnyddio stimulus ychwanegol i hybu cwestiynau gwahanol ar yr un thema. Nid oes un dull 'cywir' ar gyfer pob dosbarth, gan eu bod i gyd yn 'gymunedau ymholi' unigryw'.

Cafodd y wybodaeth ganlynol ei chynnwys ym mhob taflen gweithgaredd:

Gweithgareddau cynhesu. Mae'r rhain yn benodol i'r Agwedd neu'r Gwerth sydd dan ystyriaeth. Efallai y byddwch am ddefnyddio'r gweithgareddau cynhesu cyffredinol (isod) yn eu lle neu'n ychwanegol atynt.

Ysgogiad enghreifftiol. Ysgogiad sy'n debygol o arwain at gwestiynau athronyddol ynglŷn â'r Agwedd neu'r Gwerth. Byddwch yn ymwybodol y gall y cwestiynau sy'n codi ffocysu ar thema wahanol, felly rhaid i athrawon fod yn hyblyg eu hagwedd.

Cwestiynau posibl. Onid ydych wedi derbyn hyfforddiant ar Athroniaeth ar gyfer Plant, efallai y byddwch am ddefnyddio'r cwestiynau hyn i ddechrau trafodaeth athronyddol. Os ydych wedi derbyn hyfforddiant, *nid* yw'r rhain yn gwestiynau ichi ofyn i'r disgyblion yn union ar ôl y darllen. Yn hytrach, cwestiynau y gall y *disgyblion* eu codi ydynt, sy'n werth eu hystyried cyn ichi ddechrau'r ymholiad. Mae hyn yn rhoi cyfle ichi ystyried i ba gyfeiriad y gall y drafodaeth fynd a pha fath o syniadau a all godi. Fodd bynnag, os bydd yn plant yn cael trafferth unrhyw bryd yn ystod yr ymholiad, efallai y byddwch yn dymuno defnyddio'r cwestiynau i fynd â'r ymholiad i gyfeiriadau newydd ac ysgogi syniadau newydd.

Awgrymir **ysgogiadau eraill** ar gyfer gweithgareddau amgen neu estynnol. Mae rhai ar gael yn hawdd ar y rhyngrwyd; efallai y bydd eraill ar gael yn eich ysgol; yn sicr mae'n werth prynu rhai.

Nid yw **deilliannau dysgu** penodol wedi eu cynnwys yn fwriadol. Os oes gan yr athro ormod o reolaeth ar ddeilliannau'r ymholiad, yna ni fydd yn cyflawni ei ddiben o alluogi disgyblion i fod yn feddylwyr athronyddol dewr, agored eu meddyliau. Mae modd, fodd bynnag, i'r athro a'r disgyblion bennu nodau ynglŷn â *phroses* yr ymholiad gyda'i gilydd. Er enghraifft, gallech anelu at "fod yn fwy ymatebol fel gwrandawyr", neu "ofyn cwestiynau er enghraifft.

(iii) Gweithgareddau cynhesu a thawelu

Ar ddechrau sesiwn Athroniaeth ar gyfer Plant, gall 'pendergynu'r naws trwy ddefnyddio gweithgareddau cynhesu (i ysgogi'r ymennydd) neu weithgareddau tawelu fod yn ddefnyddiol, gan ddibynnu ar natur eich dosbarth. Dyma rai enghreifftiau cyffredinol o'r cyfryw weithgareddau. Ceir eraill, sy'n dwyn perthynas agosach i'r gweithgareddau sy'n eu dilyn, yn Adran 2.

Sip Bong: mae'r chwarae yn mynd o gwmpas i'r dde neu'r chwith. Mae'r chwaraewr cyntaf yn dweud "sip" ac yn edrych ar y chwaraewr mae am basio iddo. Gall y chwaraewr nesaf naill ai ddweud "sip" i barhau'r chwarae i'r un cyfeiriad, neu "bong" i

newid cyfeiriad. Nid oes rhaid edrych i'r cyfeiriad cywir wrth ichi basio. Cadwch i fynd, a “sip” yn mynd i’r un cyfeiriad a “bong” yn newid cyfeiriad. Os yw hyn yn rhy hawdd, gofynnwch i rywun ddechrau “sip” arall mewn man arall yn y cylch. Mae modd cael 3 neu 4 yn mynd o gwmpas ar yr un pryd!

Ps: gan fynd mewn cylch eto, mae'r disgyblion yn dechrau rhifo, gan ddweud “ps!” yn lle rhif 3 a lluosrifau 3. Os bydd chwaraewr yn gwneud camgymeriad rhaid iddo orffen chwarae neu rhaid i'r grŵp ailddechrau. Yn y gem **FfsPs**, rhaid i'r disgyblion ddweud “ffs!” yn lle lluosrifau 3, “ps!” ar gyfer lluosrifau 5 a “ffsps!” ar gyfer lluosrifau 3 a 5.
Sylwer: os ydych yn defnyddio'r gweithgaredd hwn eisoes ar gyfer sesiynau Rhifedd, gall ei ddefnyddio yn ystod sesiynau Athroniaeth ar gyfer Plant fod yn anaddas ar gyfer plant awtistig.

Dis yn siarad: dis ac arno luniau yn hytrach na rhifau. Gellir eu cael o **www.talkingdice.co.uk** ac maent yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal sesiynau Athroniaeth ar gyfer Plant gyda phlant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiol weithgareddau.

1 i 10: mae'r disgyblion yn sefyll ar eu traed ar hap i weiddi rhif rhwng 1 a 10 (un rhif yr un). Os bydd dau yn gweiddi rhif ar yr un pryd, rhaid dechrau rhifo o 1 unwaith eto. Ar y llaw arall, gallech ofyn i bawb weiddi ei enw.

Modelu emosiynau: gofynnwch i wirfoddolwyr (neu'r disgyblion i gyd, mewn parau neu grwpiau bychain) 'fodelu' yn gorfforol emosiwn a fydd yn digwydd yn y stori rydych ar fin ei defnyddio.

Gofyn cwestiynnau: mae rhywun yn gwneud datganiad, megis “Rwy'n hoffi pysgod a sglodion”. Rhaid i'r nesaf yn y cylch ofyn cwestiwn llawn, megis “Pam ydych chi'n hoffi pysgod a sglodion?” Unwaith y rhoddir yr ateb, dylai'r nesaf yn y cylch ofyn cwestiwn gwahanol am yr un pwnc, gan ddechrau a gofynnair gwahanol (e.e. “Pryd ydych chi'n bwyta pysgod a sglodion?”). Mae'r un un yn dal i ateb nes iddo oedi neu fethu ateb, yna bydd rhywun arall yn gwneud datganiad.

Sut ydych chi'n teimlo? (ar gyfer holiadau cyffyrddol)
Rhowch nifer o bethau mewn cwdyn mawr, e.e. darn o fara, darn o sebon, carreg, cannwyll, hosan, papur sych, papur gwlyb. Gwnewch yn siŵr fod gennych rai pethau sy'n anodd eu hadnabod. Rhowch y grŵp i eistedd mewn cylch. Rhowch y cwdyn i'r disgybl cyntaf a gofyn iddo ddewis rhywbeth a enwir heb edrych yn y cwdyn. Os bydd yn dewis y peth anghywir, bydd rhaid iddo ei roi yn ôl. Rhoddir y cwdyn i'r disgybl nesaf.

Enghreifftiau o ymarferion tawelu:
(1) Anadlu. Gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid a dechrau anadlu yn eithaf araf a chyson, gan anadlu i mewn trwy eu trwynau ac allan o'u cegau. Gyda phob anadl, dylent geisio darlunio eu synhwyrau eraill: dychmygu bod lliw, arogl, sain, goleuni gwres neu flas cysurlon yn llenwi eu corff.
(2) Symudiad araf. Gan naill ai eistedd neu sefyll, dylai'r disgyblion symud yn araf fel petaent (er enghraifft) yn gwmwl yn symud, yn bluen yn cwympo i'r llawr, neu’n rhywun yn cario anrheg bregus.
(3) Eistedd yn dawel. Dylai'r plant eistedd yn sefydlog ond cysurus ar eu cadeiriau, eu traed ar y llawr, gan bwyso ymlaen ychydig. Gall yr athro arwain amrywiaeth o ymarferion, gan gynnwys tynhau ac ymlacio'r cyhyrau mewn gwahanol rannau o'r corff bob yn ail; gwella hunanymwybyddiaeth trwy wrando ar wahanol synau neu

ar eu hanadlu eu hunain, neu ymarfer darlunio dan arweiniad lle bydd pawb yn dychmygu deilen yn cwympo i nant ac yna yn cael ei chario i fôr mawr llonydd.

Gellir defnyddio cerddoriaeth dawel neu amgylchol i gyd-fynd â chamau 1 a 2 uchod. Dengys ymchwil y gall cerddoriaeth offerynnol 60 curiad y funud fod yn hynod therapiwtig.

(iv) Camau ymholiad

Amlinelliad bras o'r camau y dylid eu dilyn i gynnal ymholiad athronyddol llwyddiannus yw hwn. Ceir gwybodaeth lawnach yn *Llawlyfr Safon 1 SAPERE* wedi ichi gwblhau cwrs hyfforddiant Athroniaeth ar gyfer Plant Safon 1.

1.	**Paratoi**	Dylai'r disgyblion eistedd mewn cylch a phennu rheolau ar gyfer cymryd rhan yn yr ymholiad (neu atgoffa ei gilydd amdanynt). Gellir defnyddio gweithgaredd cynhesu neu dawelu.
2.	**Cyflwyniad**	Caiff yr ysgogiad ei rannu. Os mai testun yw, gall yr athro neu'r disgyblion yn eu tro ei ddarllen.
3.	**Amser i ystyried**	Cyfnod byr i'r plant ystyried yr ysgogiad yn dawel.
4.	**Sgwrs**	Mewn parau neu grwpiau bychain, bydd y disgyblion yn trafod agweddau ar yr ysgogiad sydd o ddiddordeb arbennig iddynt.
5.	**Llunio**	Bydd pob pâr neu grŵp yn llunio cwestiwn athronyddol sy'n codi o'u trafodaeth. Nid oes rhaid fod gan y cwestiwn gysylltiad uniongyrchol â'r ysgogiad. Os ydych yn dymuno gweithio ar ansawdd yr holi, efallai y byddwch am ffurfio grwpiau mwy (o 4 neu 6) a gofyn i bob grŵp gytuno ar un cwestiwn.
6.	**Gwyntyllu**	Caiff y cwestiynau eu rhannu. Gall yr hwylusydd annog y plant i feddwl am 'gwestiynau o fewn y cwestiynau', neu eu dosbarthu yn ôl themâu tebyg.
7.	**Dewis**	Dewisir un o gwestiynau'r grŵp trwy broses ddemocrataidd. Gall y disgyblion gael un bleidlais, dwy bleidlais neu gymaint ag y mynnant. Rhowch gynnig ar amrywiaeth o ddulliau pleidleisio. Ni ddylai'r hwylusydd bleidleisio!
8.	**Geiriau cyntaf**	Gan ddechrau â rhywun yn y grŵp y dewiswyd ei gwestiwn, bydd yr hwylusydd yn annog y disgyblion i gynnig eu barn gyntaf am y cwestiwn.
9.	**Adeiladu**	Gyda chymorth yr hwylusydd, bydd y plant yn ymchwilio yn ddyfnach i'r cwestiwn, gan fod yn adeiladol feirniadol am syniadau ei gilydd a gofyn cwestiynau eraill yn ôl y galw.

10. **Geiriau olaf** Gan fynd o gwmpas y cylch, bydd gan bob disgybl un cyfle olaf i siarad. Efallai y byddwch am eu cyfyngu i un frawddeg, un cwestiwn neu bum gair.

Yn ogystal, mae'n bwysig galluogi disgyblion i **ystyried** yr ymholiad ei hun – nid o anghenraid *yr hyn* a drafodwyd, ond *sut* y trafodwyd ef. Gall hyn arwain at bennu nodau ar gyfer yr ymholiad nesaf, megis "gadewch inni fod yn barchus wrth feirniadu eraill" neu "fe ofynnwn am eglurhad os na fyddwn yn deall rhywbeth".

(v) Gwefannau defnyddiol

www.sapere.org.uk	SAPERE (y Gymdeithas er Hyrwyddo Ymholi Athronyddol mewn Addysg) Mae'n cynnwys darllen cefndirol ar Athroniaeth ar gyfer Plant a gwybodaeth am adnoddau ychwanegol.
www.childrenthinking.co.uk	Plant yn Meddwl (Maria Cornish a Sara Stanley, Ysgol Gyntaf Chapel Break, Norwich)
www.dialogueworks.co.uk	Dialogue Works (darparwyr hyfforddiant)
www.dilemma-training.com	Dull o wneud penderfyniadau moesegol
www.creative-corner.co.uk/schools/tuckswood	Ysgol Gyntaf Gymunedol Tuckswood, Norwich
www.teachingthinking.net	Tudalen gartref yr Athro Robert Fisher, Prifysgol Brunel
www.northernwisdom.org	Rhwydwaith sgiliau meddwl a'i ganolfan yn Northumberland
www.simnet.is/heimspekiskolinn/icpic.html	Cyngor Rhyngwladol Ymholi Athronyddol gyda Phlant
www.thinkingclassroom.co.uk	Dosbarth yn Meddwl
www.philosopher.org	Cymdeithas Ymholi Athronyddol (Society for Philosophical Enquiry)

ADRAN 2: GWEITHGAREDDAU YN YMWNEUD Â GWERTHOEDD AC AGWEDDAU MEWN ABCh

Taflen weithgaredd 1: *Dylai'r disgyblion… werthfawrogi a dathlu gwahaniaeth ac amrywiaeth diwylliannol*

Ymarferion cynhesu:

- *Tebygrwydd a gwahaniaeth*. Rhowch ddau wrthrych gwahanol ond sy'n perthyn i'w gilydd yng nghanol y cylch (e.e. staplwr / clip fforchog, pêl / gêm Playstation, cwdyn plastig / blwch, lluniau o ddau wahanol anifail). Gofynnwch i'r disgyblion enwi pob tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y gwwrthrychau. Cynorthwywch hwy i ddosbarthu pob tebygrwydd / gwahaniaeth – e.e. y rhai sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, neu ffurf neu swyddogaeth; y rhai rydych yn eu hadnabod wrth edrych yn unig ar y gwrthrych a'r rhai y mae angen profiad blaenorol ar eu cyfer.
- *Enwi lleoedd.* Penderfynwch ar fath o le (e.e. dinasoedd, gwledydd neu gymysgedd ohonynt). Mae'r disgybl cyntaf yn enwi lle. Rhaid i'r nesaf enwi lle sy'n dechrau â llythyren olaf yr enw cyntaf, e.e. Twrc**i** → **I**werddo**n** → **N**orwy. Os bydd rhywun yn methu, gall y nesaf gymryd ei dro.

Ysgogiad enghreifftiol: darn o *The Ugly Duckling* gan Hans Christian Andersen
Cyfieithiad gan H. P. Paull (1872). Gellir cael y testun cyfan yn y Saesneg o http://wikisource.org/wiki/The_Ugly_Duckling.

Cwestiynau:

- Pam na chymerodd y fam gyngor yr hen hwyaden a gadael yr ŵy mawr?
- A yw hi bydd yn iawn i farnu rhywun yn ôl ei ymddangosiad?
- Pam mae pobl yn chwerthin am ben ei gilydd?
- Beth yw ystyr bod yn 'hyll' neu'n 'hardd'?
- Beth oedd y fam yn ei olygu pan ddywedodd, "Nid yw yn hyll wedi'r cyfan *os edrychwch arno yn iawn*"?
- *(Os ydych yn defnyddio'r testun llawn)* A ddylai pobl iau neu lai profiadol 'roi ffrwyn ar eu tafod' trwy'r amser?
- *(Os ydych yn defnyddio'r testun llawn)* Pam oedd yr Hwyaden Hyll am farw? Beth newidiodd ei feddwl?

Ysgogiadau eraill:

- *Something Else* gan Kathryn Cave a Chris Riddell (Puffin, 1995)
- *Tusk Tusk* gan David McKee (Red Fox, 1983)
- 'Isn't My Name Magical?' gan James Berry, atgynhyrchwyd yn *Poems for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 1997)
- Ffotograffau Cronfa Plant y Cenhedloedd Unedig (UNICEF) yn dangos amrywiol wledydd a diwylliannau (ar gael ar fenthyg gan CEWC-Cymru)
- Map amrywiaeth rhyngweithiol Ysgol Gynradd Snaith: www.snaithprimary.eril.net/dhmap2.htm
- Gwefan Global Gang Cymorth Cristnogol: www.globalgang.org.uk/reallife
- Cân neu eiriau cân o ddiwylliant arall, neu anthem genedlaethol (gweler www.national-anthems.net)
- *A Pig Is Moving In!* gan Claudi Fries (Siphano, 2000)

Yr Hwyaden Hyll gan Hans Christian Andersen

(addasiad o fersiwn H P Paull o'r stori, 1872)

Roedd hi'n ddiwrnod braf o haf yn y wlad, ac edrychai'r ŷd euraid, y ceirch gwyrdd, a'r teisi gwair yn bentyrrau yn y caeau yn hardd. Cerddai'r storc o gwmpas ar ei goesau hir, coch, gan glegar yn iaith yr Aifft, yr oedd ei fam wedi dysgu iddo. O gwmpas y caeau ŷd roedd coedwigoedd mawr, ac yng nghanol y coed lynnoedd dwfn. Yn wir, pleser pur oedd mynd am dro i'r wlad. Mewn llecyn heulog roedd hen ffermdy dymunol ac afon ddofn gerllaw, ac o'r tŷ hyd at y dŵr tyfai dail tafol mawr, mor uchel fel y gallai plentyn bach sefyll yn syth dan y rhai uchaf. Roedd y llecyn hwn mor wyllt â chanol coedwig drwchus. Yn yr encil clyd hwn eisteddai hwyaden ar ei nyth, yn aros i'w nythaid o wyau ddeor; roedd wedi dechrau blino ar ei gwaith, oherwydd roedd yr hwyaid bach yn hir yn dod allan o'u plisgyn, ac anaml iawn y câi hi ymwelwyr. Roedd lawer yn well gan yr hwyaid eraill nofio yn yr afon na dringo'r lan lithrig ac eistedd dan ddeilen dafol i hel clecs gyda hi.

O'r diwedd, craciodd un plisgyn, ac yna un arall, ac o dipyn i beth o bob un o'r wyau daeth creadur byw a gododd ei ben a chrïo, "Pîp, pîp."

"Cwac, cwac," meddai'r fam, a chyn hir roedd pob un yn cwacian nerth ei big, gan edrych o'u cwmpas i bob cyfeiriad ar y dail mawr gwyrdd. Roedd eu mam yn fodlon iddynt edrych gymaint ag y mynnent gan fod gwyrdd yn dda i'r llygaid.

"Mor fawr yw'r byd!," meddai'r hwyaid bach, wedi iddynt ganfod gymaint mwy o le oedd ganddynt nawr nag oedd yn y plisgyn ŵy.

"Ydych chi'n credu mai dyma'r byd i gyd?" gofynnodd y fam; "Arhoswch nes ichi weld yr ardd; mae'n ymestyn ymhell y tu hwnt i gae'r person, ond dwyf fi ddim erioed wedi mentro mor bell. Ydych chi i gyd wedi cyrraedd?" gofynnodd, gan godi. "Na, ar fy ngair, mae'r ŵy mwyaf yma o hyd. Sgwn i pa mor hir fydd yn rhaid im i wneud hyn; rwyf wedi hen flino", meddai, gan eitedd ar y nyth unwaith eto.

"Wel, sut hwyl?" gofynnodd hen hwyaden a alwodd i'w gweld.

"Mae un ŵy yn dal heb ddeor," meddai'r hwyaden, "mae'n gwrthod cracio. Ond edrychwch ar y lleill i gyd; nhw yw'r hwyaid bach delaf a welodd neb erioed, onide? Maent yn un ffunud â'u tad, sydd mor angharedig; dyw ef bydd yn dod i'n gweld."

"Gadewch imi weld yr ŵy sy'n gwrthod cracio," meddai'r hen hwyden; "Rwy'n siŵr mai ŵy twrci yw e. Cefais i fy narbwyllo i eistedd ar rai unwaith, ac er gwaethaf yr holl ofal a'r drafferth, roedd arnynt ofn dŵr. Er imi gwacian a chlwcian, doedd dim yn tycio. Allwn i ddim eu cael i fentro i'r dŵr. Gadewch imi weld yr ŵy. Le, ŵy twrci yw e. Cymerwch gyngor gennyf fi; gadewch e lle y mae a dysgwch y plant eraill i nofio."

"Rwy'n credu yr eisteddaf arno ychydig rhagor," meddai'r hwyaden; "gan imi eistedd cyhyd, fydd ychydig ddiwrnodau arall yn ddim."

"Gwnewch fel y mynnoch," meddai'r hen hwyaden ac i ffwrdd â hi.

O'r diwedd torrodd yr ŵy mawr, a daeth creadur bychan allan ohono yn crïo, "Pîp, pîp." Roedd yn fawr ac yn hyll. Edrychodd yr hwyaden arno mewn syndod gan lefain, "Mae e'n sobor o fawr a dyw e ddim yn debyg i'r lleill o gwbl. Sgwn i ai twrci yw e

wedi'r cyfan. Fe gawn wybod cyn bo hir, pan awn i mewn i'r dŵr. Bydd yn rhaid iddo fynd i mewn, hyd yn oed os bydd rhaid imi ei wthio i mewn."

Drannoedd roedd hi'n hynod o braf, a disgleiriai'r haul yn danbaid ar y dail tafol gwyrdd, felly aeth yr hwyaden â'i nythaid o gywion bach i lawr at y dŵr, gan neidio i mewn yn fflatsh. "Cwac, cwac," meddai, ac un ar ôl y llall neidiodd yr hwyaid bach i mewn i'r dŵr ar ei hôl. Aeth y dŵr dros eu pennau, ond i fyny y daethant ar unwaith, gan nofio o gwmpas yn ddel, eu coesau yn padlo danynt yn hamddenol braf, a'r hwyaden hyll hefyd yn y dŵr yn nofio gyda hwy.

"O," meddai'r fam, "nid twrci yw hwn; edrychwch sut mae'n defnyddio ei goesau a pha mor syth y mae'n ei ddal ei hun! Fy mhlentyn i yw e, ac nid yw yn hyll wedi'r cyfan, os edrychwch arno yn iawn."

Taflen weithgaredd 2: ***Dylai'r disgyblion… ddangos gofal at eraill, bod yn ystyriol ohonynt ac yn sensitif i'w teimladau***

Ymarferion cynhesu:

- *Teimlo yn fodlon â chi eich hun.* Bydd pob disgybl yn gwneud amlinelliad o'i law ar ddalen o bapur neu gerdyn, ac yn ysgrifennu ei enw ar ben y ddalen. Caiff y dalennau eu pasio o un i un mewn cylch. Bob tro, bydd rhaid i'r disgyblion ysgrifennu rhywbeth cadarnhaol am y sawl a enwir ar y llaw. Bydd hyn yn parhau am nifer penodol o droeon, neu hyd nes y bydd y disgyblion i gyd wedi ysgrifennu rhywbeth cadarnahol am y lleill i gyd.
- *Gem ymddiriedaeth.* Cerdded yn barau, un o bob par â mwgwd dros ei lygaid, trwy'r ystafell ddosbarth, y buarth chwarae neu'r neuadd.
- *Lluniau yn siarad.* Darparwch un llun mawr o rywun (plentyn yn enwedig) o wlad neu ddiwylliant gwahanol. Gan fynd o gwmpas y cylch, dylai pob disgybl ddweud un cwestiwn y byddai'n gofyn iddo pe bai'n cwrdd ag ef. (Gellir pasio, wrth gwrs.)

Ysgogiad enghreifftiol: *Pierre*

Addasiad Martin Pollard o *Existentialism is a Humanism* gan Jean-Paul Sartre.

Cwestiynau:

- Sut mae pobl yn ymateb pan fyddant yn wynebu perygl?
- A yw dial yn beth da?
- Beth ddylai Pierre ei wneud?
- Pam mae teimladau ei fam yn bwysig?
- A all lladd byth fod yn iawn?
- Mewn rhyfel, a yw un ochr bob amser yn fwy cyfiawn na'r llall?
- Beth sydd bwysicaf – bywyd rhywun rydych yn ei adnabod neu fywydau llawer nad ydych yn eu hadnabod?

Ysgogiadau eraill:

- 'What Is Better Than Gold?' o *Values for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 2001)
- *The Three Robbers* gan Tomi Ungerer (Methuen, 1962) – ar gael fel llyfr 'argreffir yn ôl y galw' oddi wrth www.blackwells.co.uk
- *The Angel of Nitshill Road* gan Anne Fine (Methuen, 1992)
- *Don't Do That!* gan Tony Ross (Red Fox, 1998)
- *Frog and the Stranger* gan Max Velthuijs (Andersen, 1993)
- *Our Brother Has Down's Syndrome* gan Shelley Cairo (Annick Press, 1985)
- 'Back in the Playground Blues' gan Adrian Mitchell, atgynhyrchir yn *Poems for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 1997)

Pierre

(addasiad Martin Pollard o waith Jean-Paul Sartre)

Roedd Pierre yn byw gyda'i dad a'i fam yn Ffrainc yn 1940. Y pryd hwnnw, roedd Ffrainc wedi ildio i'r Almaen ac roedd milwyr Natsïaidd yn rheoli'r wlad. Ond penderfynodd llawer o ddynion ifainc barhau i ymladd yn erbyn yr Almaen, gan ymuno â Lluoedd Rhyddion Ffrainc.

Lladdwyd brawd hynaf Pierre pan ymosododd yr Almaenwyr ar Ffrainc. Roedd Pierre am ddial ar y Natsïaid. Ond nid oedd ei dad am ymladd yn erbyn yr Almaenwyr; a dweud y gwir, roedd yn barod i'w cynorthwyo yn dâl am ffafrau. Arferai ddadlau â mam Pierre trwy'r amser.

Roedd marwolaeth ei mab hynaf a brad ei gŵr yn ofid mawr i fam Pierre. Yr unig gysur oedd ganddi oedd Pierre.

Felly roedd dewis gan Pierre: a ddylai ymuno â Lluoedd Rhyddion Ffrainc, neu aros gyda'i fam a'i helpu hi i fyw? Gwyddai mai er ei fwyn ef yn unig yr oedd yn byw, a phe bai ef yn diflannu – neu'n cael ei ladd – y byddai hi mewn anobaith dwfn. Gwyddai hefyd y byddai'n siŵr fod o gymorth iddi gartref, ond pe bai'n mynd i ymladd ni allai wybod beth allai ddigwydd. Ond pe bai'n mynd i ymladd, byddai'n gweithio er lles holl bobl Ffrainc, a gallai dial am farwolaeth ei frawd; ar y llaw arall, os arhosai gartref un yn unig allai ei gynorthwyo – ei fam.

Ni wyddai Pierre beth i'w wneud.

Taflen weithgaredd 3: *Dylai'r disgyblion… gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu gweithredoedd*

Ymarferion cynhesu:

- *Rheolau cymuned ymholi.* Mewn parau neu grwpiau bychain, bydd y disgyblion yn ysgrifennu rheolau y dylai pawb eu cadw yn ystod sesiynau Athroniaeth ar gyfer Plant er mwyn trafod popeth yn iawn. Gellir eu hysgrifennu ar un ddalen fawr neu ar stribedi lliw o bapur cyn eu gludio ar boster, y wal neu fwrdd. Os pennwyd rheolau sylfaenol ar gyfer sesiynau Athroniaeth ar gyfer Plant eisoes, dyma gyfle da i'w hailystyried.
- *Dwylo.* Gofynnwch i'r disgyblion (mewn parau efallai) i feddwl am un peth da ac un peth drwg y gall dwylo eu gwneud. Os oes gennych amser, darparwch ddwylo o bapur (neu gofynnwch i'r disgyblion dorri rhai allan), y gallant ysgrifennu eu hatebion arnynt; gellir eu gludio wedyn ar y wal neu ar fwrdd.

Ysgogiad enghreifftiol: *Hen Gwilym* (chwedl Gymreig)

Cwestiynau:

- A ddylai Gwilym fod wedi rhoi'r darn aur yn ei boced?
- A wariodd Gwilym yr arian yn 'anghywir'?
- A fyddai wedi gwneud gwahaniaeth pe bai Gwilym wedi gwario'r aur ond wedi cofio prynu'r caws?
- Pam fyddai'r tylwyth teg am ddial?
- A ydych yn credu yn y tylwyth teg? A oes gwahaniaeth a oedd Gwilym yn credu ynddynt?
- Pam mae pobl weithiau yn gwario arian ar gael hwyl, hyd yn oed os yw hynny yn gwneud cam â phobl eraill?
- A ddylai pobl gyfaddef bob tro y byddant wedi gwneud rhywbeth anghywir?

Ysgogiadau eraill:

- *The Sword of Damocles* (chwedl Roegaidd – mae'n hawdd dod o hyd i fersiwn ar y rhyngrwyd)
- 'Val's Problem Page' o *Values for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 2001)
- *Egg Drop* gan Mini Grey (Red Fox, 2003)
- 'Jim' gan Hillaire Belloc (o *Cautionary Tales for Children*, 1907)

Hen Gwilym

(chwedl Gymreig)

Un bore braf dechreuodd Gwilym Evans o'i gartref anghysbell ar ei daith dros fryniau'r Eryr i'r dref, gan fwriadu prynu caws. Ar ei ffordd, mewn man unig yng nghanol y bryniau, daeth o hyd i ddarn o aur, a rhoddodd ef yn ei boced yn gyflym.

Wedi cyrraedd y dref, yn lle prynu bwyd, aeth i dafarn gan eistedd yno yn yfed ac yn canu yn swynol gyda chriw o chwarelwyr nes iddi dywyllu, pan feddyliodd ei bod yn bryd iddo fynd adref. Tra roedd yn yfed, daeth hen wreigan yn cario basged i mewn ac eistedd ar ei bwys, ond gadawodd hi y dafarn o'i flaen. Gadawodd y dafarn gan gerdded yn sigledig trwy'r dref ac anghofio yn llwyr am brynu caws. Wrth iddo gyrraedd y bryniau roeddent fel petaent yn dawnsio i fyny ac i lawr o'i flaen, ac roedd yntau â'i ben yn y cymylau.

Pan ddaeth yn agos at y llecyn unig lle daeth o hyd i'r aur, clywodd gerddoriaeth swynol, a chroesodd nifer o dylwyth teg ei lwybr a dechrau dawnsio o'i gwmpas. Wrth iddo edrych o'i amgylch, gwelodd dai wedi eu goleuo yn llachar o'i flaen ar y bryn, a chrafodd ei ben oherwydd ni allai gofio gweld tai yno erioed o'r blaen. Wrth iddo bendroni a gwylio'r tylwyth teg, daeth un ato yn ymbil arno i ddod i mewn i'r tŷ ac eistedd i lawr. Felly dyma fe'n ei dilyn a gweld bod y tŷ yn aur i gyd y tu mewn, a golau llachar ynddo, a bod y tylwyth teg yn dawnsio ac yn canu, gan ddod ag unrhyw beth y gofynnai amdano iddo i swper cyn ei roi yn y gwely.

Cysgodd Gwilym yn drwm a phan ddihunodd trôdd yn ei wely am ei fod yn oer iawn a'i gorff fel petai yn bigau i gyd. Eisteddodd a rhwbio ei lygaid, a gweld ei fod yn noeth ac yn gorwedd mewn llwyn o eithin. Pan sylweddolodd ei stad, brysiodd adref i ddweud wrth ei wraig. Roedd hi'n ddig iawn wrtho am wario'r arian i gyd ac am beidio â phrynu caws, a dywedodd yntau yr holl hanes wrthi.

"O'r dyn drwg!" meddai, "rhoddodd y tylwyth teg arian iti ac fe wariaist ef yn anghywir, felly roeddent yn siŵr o ddial".

Taflen weithgaredd 4: ***Dylai'r disgyblion… fod yn chwilfrydig ac ymholgar ac yn meddu ymdeimlad o ryfeddod at ffenomenau naturiol a chyflawniad dynol***

Ymarferion cynhesu:

- *Gwrthrychau.* Mae pob disgybl yn dod ag un gwrthrych i'r dosbarth o ran arall o'r ysgol (e.e. deilen, pecyn creision, pensil). Yna maent yn dweud un peth diddorol amdano neu'n gofyn cwestiwn amdano.
- *Sawl cwestiwn?* Dangoswch wrthrych megis ornament neu ddarn o offer cegin. Mewn grwpiau o 2-4, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cymaint o gwestiynau ag y gallant am y gwrchrych. Efallai y byddwch am dreulio amser wedyn yn dosbarthu'r cwestiynau, e.e. cwestiynau am nodweddion ffisegol, cynllun neu swyddogaeth.
  Ceir cyfarwyddiadau llawn yn *Games for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 1997).

Ysgogiad enghreifftiol: lluniau o fannau addoli (gwelwch ddiwedd y pecyn Saesneg)
Nid oes labeli ar y rhain, er mwyn annog trafodaeth agored.

Cwestiynau:

- Pam mae'r adeiladau yn wahanol, yn eich barn chi?
- Pa ddiben all fod iddynt?
- A yw rhai adeiladau yn fwy deniadol neu'n fwy diddorol na'i gilydd? Pam?
- Pam mae adeiladau yn edrych yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r byd?
- Pam mae angen adeiladau ar bobl?
- A ddylai adeiladau gael eu codi i gydweddu â'r byd naturiol?
- A yw codi adeilad mwy yn fwy o gamp?

Ysgogiadau eraill:

- Ar gyfer ymholiad mwy cyffyrddol, benthychwch gerflun neu benddelw oddi wrth athro neu ddisgybl neu o adran gelf ysgol uwchradd. Mae penitiad anghyffredin yn ddewis amgen llai cyfyrddol.
- *Cymru Wyllt* gan George Borrow (1862): gweler www.visionofbritain.org.uk/Travellers/contents_page.jsp?t_id=Borrow
- Arteffactau o'ch amgueddfa leol neu'r llyfrgell leol, neu o brosiect Canolfan Cydgefnogaeth Ryngwladol (International Solidarity Centre) Reading, 'World in Their Hands': www.risc.org.uk/with
- *Do You Believe in Magic?* gan Saviour Pirotta a Mrinal Mita (Dent, 1990)
- 'The Professor and the Ferryman' o *Stories for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 1996)
- *Why?* gan Tony Ross a Lindsay Camp (Andersen, 1998)
- *Why Bear Has a Stumpy Tail and Other Creation Stories* gan Ann Pilling (golygydd) a Michael Foreman (darluniwr) (Walker, 2000)

Taflen weithgaredd 5: Dylai'r disgyblion… fod yn onest a theg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod

Ymarferion cynhesu:

- *Penderfyniadau.* Bydd pob disgybl yn dweud pa flas o greision sydd orau ganddo. Yna bydd y disgbylion, bob yn bâr, yn gorfod gwneud penderfyniad ar y cyd ynglŷn â'r un blas sydd orau ganddynt. Mae'r broses hon yn parhau gyda grwpiau o 4, 8, ac yn y diwedd bydd y dosbarth i gyd yn un grŵp. Dylai'r disgyblion roi rheswm dros eu penderfyniad.
  (Mae fersiwn lawn o'r gweithgaredd hwn ar gael yn adnodd *Dinasyddiaeth Heddiw* CEWC-Cymru: Modwl 4, Gweithgaredd 5.)
- *Llinell cytuno /anghytuno.* Gwnewch ddatganiad megis "Rhaid i bawb fod yn onest bob amser" neu "Mae'n iawn torri rheolau'r dosbarth weithiau". Gofynnwch i'r disgyblion sefyll mewn unrhyw fan ar hyd llinell ddychmygol, lle mai 'Cytuno' yw un pen ac 'Anghytuno' yw'r llall (gallech roi'r geiriau hyn ar y wal). Eglurwch ei bod yn iawn i newid eich meddwl a symud i fan arall ar y llinell, os bydd rhywun yn dweud rhywbeth a fydd yn effeithio ar eich barn.
- *Rheolau cymuned ymholi.* Gweler Rhan 3 uchod.

Ysgogiad enghreifftiol: "Handcuffs or How do you dos?"

O *Newswise*. I danysgrifio i *Newswise*, cysylltwch â Roger Sutcliffe yn rogersutcliffe@onet.co.uk. Mae tanysgrifiad blynyddol yn £30, ac mae pob rhifyn electronig yn cynnwys erthygl a hyd at 12 tudalen o gyfarwyddyd ar gyfer athrawon.

Cwestiynau:

- A ddylid enwi pobl yn eu harddegau am fod yn afreolus mewn papurau newyddion a'u cywilyddio?
- A yw'n iawn i bobl fod a rhywfaint o ofn yr heddlu?
- A fyddai restio unrhyw un yr amheuir iddo gyflawni unrhyw drosedd yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pobl yn ystyried yr heddlu?
- Os nad yw trosedd yn ddifrifol, a yw hynny yn golygu nad yw'n bwysig?
- A ddylech chi ufuddhau i'r gyfraith bob amser?
- A yw hi'n bwysig nad y Frenhines sy'n ysgrifennu'r araith mae'n ei darllen yn y Senedd?
- A ydych yn credu bod rhai yn cwyno gormod am eu cymdogaethau?

Ysgogiadau eraill:

- 'The Justice of Dick Whittington' a 'Respect for the Law' – y ddau o *Values for Thinking* gan Robert Fisher (Nash Pollock, 2001)
- *A Lovely Bunch of Coconuts / Y Brenin Trachwantus* gan Dennis Reader (Walker, 1989 / Tabula, 2000)
- Dameg y Gwas Anfaddeugar o *Efengyl Mathew*, pennod 18

THINKING THROUGH THE NEWS

NEWSWISE

Handcuffs or How do you do's?

The Queen makes many speeches every year, but only one of them is called 'The Queen's Speech'.
This is not the same as her talk on Christmas day, which a lot of people watch on TV. Not many people watch this particular speech. But it is probably her most important one, because it affects the lives of everyone in the country.

Actually, she does not make up the speech herself. She only reads it, at a ceremony in Parliament. It is written by civil servants - people working for the government – and it lists the plans that the government has for making new laws.

The rules of most schools do not change very often, but the laws of the country are changing frequently. In this year's speech, 37 big changes – or what parliament calls Bills – are proposed. If they are agreed, they will be called Acts of Parliament, creating many new laws.

Of course, not all proposals are liked by everyone. For example, teenagers who behave badly in their communities could be 'named and shamed' in their local newspapers. Some people – not just teenagers! - disagree with this idea.

A lot of disagreement to this speech was to do with some big changes the government wants to make to deal with terrorism and serious crime. For example, they want every person in the country to have an identity card – that is, a card to prove they are who they say they are. They think this would make it easier for the police to catch criminals or terrorists, some of whom use false names.

But opponents of the idea say that the cards will be inconvenient for ordinary people; and that terrorists would find ways of forging the cards anyway.

Terrorism, obviously, is something to be feared – otherwise it would not be terrorism! But Tony Blair and his government have been accused of exaggerating the dangers in order to allow them to change the laws.

People have said that some of the laws themselves could lead to people being more afraid – of the police, for example.

The police can, of course, already arrest anyone who is obviously committing a crime, such as a burglar or a drunken driver. But at present they cannot arrest just anyone who acts suspiciously. The person has to be suspected of a serious crime – one that might end in five years in prison.

In the new proposals, they could arrest any person suspected of any crime. That could include even minor crimes such as dropping litter. The result might be not only that police get more suspicious of innocent people, but also that innocent people get more suspicious and fearful of the police.

On the other hand, a lot of people expect the government to make sure their neighbourhoods are both safe and pleasant. And most people agree that litter on streets is unpleasant. So, what is the government to do, apart from give the police more powers to arrest people?

Well, another thing they propose to do is to allow the police to give on-the-spot fines for a number of so-called 'anti-social' offences. These include: dropping litter, abandoning cars on public roads, making too much noise at night, etc.

They have also spent some money - £60,000 – on a survey to find out who throws chewing gum on the streets, and how to reduce this. It may sound a lot of money, but clearing gum from public places costs the UK £150 million a year. And there are half a million complaints a year from the public about gum on pavements.

One suggestion comes from a book called, 'A guide to Modern Manners', by Thomas Blaikie. He asks, *'What is anti-social behaviour if not bad manners?'* He discusses what could be good manners for our time, and believes that we might have a better society if people began practising them more.

© Roger Sutcliffe 2004

Taflen weithgaredd 6: ***Dylai'r disgyblion… gymryd diddordeb gweithredol ym mywyd y gymuned a phryderu am yr amgylchfyd ehangach***

Ymarfer cynhesu:

- *Gwe gymunedol.* Mae pawb yn eistedd mewn cylch. Mae'r cyntaf yn dal pen pelen o linyn ac yn ei rholio ar y llawr at rywun sy'n eistedd gyferbyn ag ef. Mae hwnnw yn dal y llinyn fel ei fod yn gwneud llinell rhwng y ddau. Mae hwnnw yn rholio'r belen ar draws y cylch i rywun arall. Caiff y belen ei rholio nes bod pawb yn dal y llinyn. Yn olaf, caiff ei rholio yn ôl i'r cyntaf, fel ei fod yn dal deupen a diwedd y llinyn. Yna gofynnwch i bawb edrych sut mae'r llinyn yn cysylltu pob un ohonynt, yn union fel gwe pry cop. Gofynnwch am syniadau'r disgyblion am ystyr hyn. Gweithiwch ar y syniad fod pawb yn ddibynnol ar ei gilydd i gadw'r we yn gadarn a chynhaliol. Pe bai unrhyw un yn tynnu ei law o'r we, byddai'r rhan honno o'r we yn chwalu. Sut mae hyn yn cysylltu â'r dosbarth, yr ysgol, y teulu neu'r gymuned?

Ysgogiad enghreifftiol: map tlodi (gwelwch ddiwedd y pecyn Saesneg)
Mae amrywiaeth o fapiau ar gael yn www.povertymap.net. Argymhellir bod unrhyw destun eglurhaol yn cael ei ddileu o'r map (naill ai â llaw neu gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol fel Paint), i ganiatáu trafodaeth fwy agored.

Cwestiynau:

- Beth yw ystyr y gwahanol liwiau?
- A oes cysylltiad rhwng rhannau o'r byd sydd yn yr un lliw?
- Beth yw'r gwahaniaethau rhwng Cymru a gwlad yn ne Affrica neu Asia, dyweder?
- A oes tebygrwydd rhwng gwledydd sydd mewn lliwiau gwahanol?
- Am ba un y dylem ofalu fwyaf – y gymuned leol neu'r gymuned fyd-eang?
- *(Os yw'r drafodaeth yn mynd ymlaen i drafod tlodi)* Pa whaniaeth mae'n ei wneud i ni os oes gan rai pobl lai o arian na ni? A ddylem ni roi arian i bobl mewn gwledydd eraill?

Ysgogiadau eraill:

- 'Water for All' (gwefan Cool Planet Oxfam – www.oxfam.org.uk/coolplanet/water)
- *Dinosaurs and All That Rubbish* gan Michael Foreman (Hamish Hamilton, 1972)
- Map datblygiad dynol Cymorth Cristnogol (heb allwedd eglurhaol)
- *Gregory Cool* gan Caroline Binch (Frances Lincoln, 1994)
- *Isn't It a Beautiful Meadow?* gan Wolf Harranth a Winfried Opgenoorth, cyfieithwyd gan J. Tabberner ac R. Heapy (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1985)
- *Where the Forest Meets the Sea* gan Jeannie Barker (Greenwillow, 1988)
- *Window* gan Jeannie Barker (Walker, 2002)